**Nodyn Briffio o Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf yng Nghymru (WPDG)**

## Cyd-destun

Hyd at 2014, roedd pob Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Prawf yng Nghymru a Lloegr wedi'i barnu'n "rhagorol" neu'n "dda" gan Arolygydd annibynnol y Gwasanaeth Prawf gan ystyried ei bod yn arwain y ffordd yn fyd-eang. Yn 2014, gwelodd y prosiect Trawsnewid Adsefydlu trychinebus breifateiddio rhannol y Gwasanaeth Prawf, gydag Ymddiriedolaethau cwasi-annibynnol lleol yn cael eu dileu. Yn 2020, dychwelodd y Gwasanaeth Prawf i'r sector cyhoeddus ond fel atodiad i'r Gwasanaeth Carchardai mewn un gwasanaeth cenedlaethol sef: Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Ers 2015, mae bron pob arolygiad wedi barnu bod pob uned cyflwyno gwasanaeth prawf naill ai'n "annigonol" neu "mae angen ei gwella". Mae'r taflwybr am i lawr hwn wedi bod ar waith ochr yn ochr â'r gwasanaeth carchardai o ran cyrraedd y dibyn.

Roedd maniffesto llywodraeth y DU yn cynnwys cynnal adolygiad o lywodraethiant y gwasanaeth prawf yng Nghymru a Lloegr, ond hyd yn hyn nid yw hyn wedi digwydd. Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i geisio datganoli'r gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid.

## Ein Gwaith

Wedi'i gynnull o dan nawdd Canolfan Troseddau a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru (WCCSJ), mae Grŵp Datblygu Gwasanaeth Prawf Cymru sy'n annibynnol - academyddion a gweithwyr proffesiynol y gwasanaeth prawf - oll yn eirioli dros Wasanaeth Prawf modern i Gymru y mae ei werthoedd ac egwyddorion, ei bolisïau ac ymarfer sylfaenol, wedi'u hintegreiddio'n llawn ag ethos gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

Argymhellir datganoli'r Gwasanaeth Prawf i Gymru gan y Comisiwn ar gyfer Cyfiawnder yng Nghymru a'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru, Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru a'r Comisiwn ar Ddyfodol y DU – "Adolygiad Gordon Brown".

Nid oes gan WPDG farn o ran rhinweddau datganoli'r gwasanaeth prawf ynddo'i hun. Serch hynny, mae'r uchelgais gwleidyddol yn cyflwyno cyfle i Gymru gynnig gweledigaeth ar gyfer gwasanaeth prawf yn yr 21ain ganrif sy'n mynd i'r afael â methiannau yn y system bresennol ac yn ailymweld ag agweddau ar ymarfer, rheoli, llywodraethiant a gweithio mewn partneriaeth a oedd mor llwyddiannus yn y gorffennol.

Yn ein cyhoeddiad yn 2024 'Towards a devolved Probation Service in Wales', gwnaethom gytuno gyda llawer o sylwebwyr awdurdodol, gan gynnwys Prif Arolygwyr Gwasanaeth Prawf EF, nad yw model presennol y gwasanaeth prawf yn gweithio, gyda thystiolaeth o ail-droseddu, gorlenwi difrifol mewn carchardai a methu cadw staff profiadol. Yn lle hynny, rydym yn nodi tystiolaeth a ffyrdd o ddatblygu gwasanaeth prawf effeithiol yng Nghymru. I gyrraedd y cynigion

yn y papur hwn, mae WPDG yn croesawu cydweithio â Napo, Y Gymdeithas Broffesiynol ac Undeb Llafur staff y Gwasanaeth Prawf a Llysoedd Teulu.

Rydym yn cynnig cynllun ar gyfer Model Datganoledig y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru sy'n gallu cynnig fframwaith strategol ar gyfer llunwyr polisi sy'n paratoi ar gyfer datganoli'r gwasanaeth prawf i Gymru. Mae'r ddwy lywodraeth yn gweithio tuag at "Femorandwm o Ddealltwriaeth" a fyddai'n gweld camau breision yn cael eu cymryd tuag at ddirprwyo rhai agweddau ar waith y gwasanaeth prawf i ardaloedd lleol.  Byddem yn dadlau na ddylai unrhyw drafodaethau rwystro cynnydd pellach i'r model gwasanaeth rydym wedi'i gynnig, gan ddiogelu Gwasanaeth Prawf Cymru ar gyfer y dyfodol.

## Model Datganoledig i'r Gwasanaeth Prawf yng Nghymru

Gall gwasanaeth prawf annibynnol datganoledig nad yw'n rhan o'r gwasanaethau sifil na'r gwasanaethau carchar:

- Ail-broffesiynoli gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol hanfodol sy'n tangyflawni.
- Cyfrannu at bolisi cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac amcanion cyfiawnder troseddol a'u gweithredu.
- Cael effaith ar yr argyfwng mewn carchardai a chyfraddau aildroseddu oedolion drwy weithio ar sail tystiolaeth.
- Pwyslais ar reoli, comisiynu a chyflwyno gwasanaethau'n lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth ar lefel Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf.
- Ail-bwysleisio adsefydlu, ymatal a phwysigrwydd perthnasoedd fel amcanion proffesiynol arweiniol ar gyfer staff y gwasanaeth prawf.
- Ailsefydlu perthnasoedd agos â llysoedd lleol, teuluoedd a chymunedau.
- Sicrhau bod lleisiau dioddefwyr troseddau'n cael eu clywed ar bob cyfle gyda phwyslais ar ehangu gwasanaethau cyfiawnder adferol a llysoedd datrys problemau.
- Meithrin cyfranogiad sefydliadau yn y sector gwirfoddol lleol i gynnig gwasanaeth adsefydlu ymarferol.

## Pedwar amcan strategol allweddol i gefnogi model datganoledig ar gyfer y Gwasanaeth Prawf

### 1. Mae'r Gwasanaeth Prawf yng Nghymru'n seiliedig ar dystiolaeth - Rydym yn gwybod yr hyn sy'n gweithio!

Mae gan Brifysgolion yng Nghymru brofiad o fri o ran a) gwerthuso rhaglenni cymunedol arloesol a b) ymchwilio i dystiolaeth o orchmynion cymunedol sy'n lleihau amlder, nifer a mathau o aildroseddu gan oedolion.Mae prifysgolion Cymru'n gallu gwerthuso pob agwedd ar fodel ar gyfer y gwasanaeth prawf yng Nghymru. Gall prifysgolion hefyd  gynnig Cymhwyster

Gwasanaeth Prawf unigryw i Gymru gyda mewnbwn gan randdeiliaid o bwys gan gynnwys Ynadon

Byddai gweithredu, gorfodi ac ymarfer yn cael eu hategu gan set o werthoedd ac egwyddorion unigryw ac ar wahân (i'r carchardai) gan gydbwyso adsefydlu â gorfodi a goruchwyliaeth - fel a nodwyd yn ein cyhoeddiad.

Mae arferion lleol, yn enwedig wrth gomisiynu, yn hollbwysig i feithrin perthnasoedd cymunedol a chefnogi ymatal rhag troseddu. Mae amryw o gyfleoedd dysgu'n bodoli ar gyfer creu model gwasanaeth prawf gyda dylanwad academyddion ac ymarferwyr mewn cyfiawnder ieuenctid.

***Research confirms the importance of highly professional probation workers and "the centrality of a good professional relationship to potential success in probation and that in the absence of such a relationship, most if not all potential positive impacts of other interventions would not be realised"*** **"(Deering & Raynor, 2024, in Borja et al.)**

## 2. Bydd y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru'n seiliedig ar Lysoedd, yn canolbwyntio ar ymatal ac yn gwasanaethu ei gymunedau.

Mae angen newidiadau tymor hir, drwy fwy o bwerau cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru, i wireddu'r amcan hwn:

**Mae ail-sefydlu rôl Swyddog Prawf fel "Swyddog y Llys"** yn angenrheidiol er mwyn cael swyddog ar ddyletswydd parhaus ar waith yn yr holl lysoedd dedfrydu ac er mwyn rhoi gwybodaeth reolaidd i ddedfrydwyr am gydymffuriaeth, cynnydd a llwyddiant. Ni fyddai adroddiadau'r llys yn fformiwläig ar sail algorithmau mwyach ond ar asesiad mwy cyfannol sy'n seiliedig ar fewnbwn proffesiynol a chymunedol ehangach gyda risgiau ac achosiaeth yn llywio unrhyw argymhellion. Byddai staff y gwasanaeth prawf yn ceisio adborth gan Ynadon a Barnwyr ar safon adroddiadau ac effaith gorchmynion cymunedol. Trafodir cynnal cyfarfodydd rheolaidd â Chlercod Llysoedd i reoli busnes y gwasanaeth prawf mewn llysoedd.

**Ailgyflwyno'r Gorchymyn Prawf fel fframwaith ar gyfer yr holl ddedfrydau cymunedol.** Byddai diddordeb presennol HMPPS yn risg, monitro a goruchwyliaeth yn cael ei gydbwyso â mwy o bwyslais ar effeithio ar y perthnasoedd sy'n annog ac yn meithrin ymatal rhag troseddu. Dylai achosion o dorri'r gyfraith ac adalw fod yn ddewis olaf.Bydd staff y gwasanaeth prawf yn cydweithio'n rheolaidd â phartneriaid i sicrhau gwasanaethau dargyfeirio cyn mynd i'r llys, gwybodaeth am fechnïaeth, cyfiawnder adferol a gwasanaethau i ddioddefwyr.

## 3. Bydd llywodraethiant y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru yn seiliedig ar leoliaeth

Nodweddion allweddol ar gyfer gweithredu:

- Bwrdd Gwasanaeth Prawf Cymru i fod yn gyflogwr holl staff y gwasanaeth prawf gydag Ynadon Heddwch, Cynghorwyr ac aelodaeth annibynnol yn atebol i Lywodraeth Cymru. Dylai'r Bwrdd gyhoeddi cynlluniau blynyddol ac adroddiadau perfformiad.
- Bydd Llywodraeth Cymru'n pennu blaenoriaethau cyfiawnder ieuenctid eang, yn cytuno ar fframwaith perfformiad a strategaethau ar gyfer y gwasanaeth prawf gyda thargedau ar gyfer lleihau'r defnydd o ddedfrydau carchar.

- Bydd rheoli, perfformiad a chomisiynu cyfrifoldebau'n cael eu trosglwyddo i Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf (PDU) sy'n cyd-fynd â'r Heddlu a/neu'r Byrddau Iechyd fel y bo'n briodol.
- Bydd rolau a disgrifiadau swydd swyddogion prawf rheng-flaen yn cael eu hail-lunio, gan symud i ffwrdd o swyddfeydd a chyfrifiaduron, gan ddychwelyd y pwyslais at oruchwyliaeth unigol, llysoedd, ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau.
- Mae'r rôl arweinyddiaeth, ac ymreolaeth berthynol arweinwyr PDU lleol i weithio gyda phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â phroblemau lleol drwy arloesedd, cyfranogi a chomisiynu'n hollbwysig.
- Bydd Ynadon a Barnwyr yn cael eu gwahodd i gyfranogi ar lefelau Bwrdd a lleol mewn cynadleddau achos a chyfarfodydd comisiynu.
- Bydd awdurdodau lleol, sefydliadau iechyd, tai, cyflogaeth a sefydliadau yn y sector gwirfoddol yn aelodau allweddol o fyrddau comisiynu lleol.

### 4. Bydd y Gwasanaeth Prawf yn gweithio gyda'i bartneriaid i leihau'r boblogaeth yng ngharchardai Cymru.

Yn hanesyddol, amcan proffesiynol sylweddol fu i leihau'r defnydd o ddedfrydau carchar i oedolion, mater erbyn hyn sy'n creu'r penawdau oherwydd y gorlenwi cronig presennol. Mae'r camau allweddol yn cynnwys:

- Cael dialog â Barnwyr ac Ynadon Cymru ar lefelau cenedlaethol a lleol er mwyn i ddedfrydwyr ymgyfarwyddo â nodau a chynnwys argymhellion mewn adroddiadau "dewis amgen i'r ddalfa", dedfrydau cymunedol ac achosion gorfodi.
- Cytuno ar isafswm safon Dyletswydd Llys y Gwasanaeth Prawf a phrotocol gorfodi. Diwygio arferion ac ymarfer y gwasanaeth prawf parthed adalw/torri'r gyfraith.
- Diweddaru'r gwasanaethau dargyfeirio cyn mynd i'r llys a gwybodaeth am fechnïaeth.
- Achub ar y cyfle i ddefnyddio technoleg newydd yn y Gorchymyn Prawf ac mewn fframweithiau ar ôl y ddalfa fel atodiad cadarnhaol i unrhyw gynllun goruchwylio, o ganlyniad i argymhellion y swyddog prawf mewn adroddiadau'r llys a chyn rhyddhau yn unig.

### I gloi:Symud at Hunaniaeth Ar Wahân i'r Gwasanaeth Prawf yng Nghymru

- Dylai Llywodraeth Cymru gyfleu'r model amlinellol hwn o wasanaeth prawf i Gymru i'r llysoedd gan adeiladu ar argymhellion Comisiwn Thomas ac adroddiadau WCPP.
- Bydd mabwysiadu'r model ymarferol hwn fel meincnod ar gyfer ymgynghori'n galluogi Llywodraeth Cymru i gymhwyso ymagwedd benodol a chyflym at strategaeth gyfathrebu a rhaglen ymgynghori ehangach.

- Dylai opsiynau model gael eu harchwilio a'u gwerthuso yn ôl yr angen er mwyn sicrhau perchnogaeth gan randdeiliaid, partneriaid cyfiawnder troseddol a'r cyhoedd yn gyffredinol.
- Mae argaeledd y model hwn yn gyfle i archwilio a dylanwadu ar negodiadau Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU ac HMPPS - gan nodi nad Manceinion yw Cymru, felly ni ddylid torri a gludo "Model Manceinion".

**Grŵp Datblygu Gwasanaeth Prawf Cymru, Hydref 2025**

E-bost: admin@wccsj.ac.uk / Gwefan: https://wccsj.ac.uk/en/

Cyfeiriadau a chyhoeddiadau perthnasol:

- Borja S, Deering J, Feilzer M, et al. (2024). *Towards a devolved Probation Service in Wales: A collection of papers by the Probation Development Group*. Canolfan Troseddu a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru.https://wccsj.ac.uk/images/j3wccsj_all_content/documents/publications/2024/PDG%20Full%20publication%20978-1-909838-67-3.pdf
- Deering, J., Feilzer, M. Y., & Rabaiotti, E. (2025). Professional Registration of Probation Practitioners in a Devolved Welsh Probation Service. *Probation Journal*, *72*(2), 186-201. https://doi.org/10.1177/02645505251336647
- Rabaiotti, E. (2025). 'Work locally': The slow journey to devolving probation in Wales. *Probation Journal*. https://doi.org/10.1177/02645505251373029
- Raynor, P. (2024). *Reviving Probation: Ten Evidence Driven Strategies*. London: Probation Institute. https://www.probation-institute.org/news/reviving-probation-ten-evidence-driven-strategies.